Tymor y Gwanwyn

Allweddau

Cysyniadau: **Dyfalbarhad, gweithio'n galed, penderfyniad.**

Amcan: **Dangos fel y mae gweithio'n galed yn dwyn ffrwyth.**

Cyfarpar: **Detholiad o allweddau.**

Cyflwyniad:

● Dangos yr allweddau fesul un a chael y plant i ddyfalu beth yw eu pwrpas.

● Mae angen allweddau i gloi a gwneud yn ddiogel – cloi drws y tŷ, cloi'r car, cloi'r cwpwrdd. Cadw pethau'n saff ac yn ddiogel.

● Bydd angen allwedd hefyd i ddatgloi ac i agor. Felly, mae'r allwedd yn gwneud dwy swydd bwysig sef agor a chau (cloi).

● Trafod allweddau gwahanol megis allwedd car sy'n gallu agor y drws o bell. Gellir agor hefyd efo cerdyn arbennig. Ond beth bynnag yw ffurf neu siâp yr allwedd yr un yw'r pwrpas sef i agor a chloi.

Stori:

'Mam, mi ydw i'n sâl. Mae 'mhen i'n brifo. Ac mi ydw i eisiau taflu i fyny. Fedra i ddim mynd i'r ysgol heddiw. Mi ydw i'n rhy sâl.'

Roedd mam Aled wedi clywed hyn droeon o'r blaen ond y munud oedd hi wedi mynd heibio naw o'r gloch roedd Aled wedi codi o'i wely ac yn dechrau chwarae efo'i lego.

'Yli,' meddai mam Aled, 'cymra chwistrelliad o Calpol ac mi fyddi di'n well mewn dim.'

'Na Mam,' meddai Aled, 'mae Calpol yn fy ngwneud yn salach.'

Ond doedd ei fam ddim am gymryd 'na' gan Aled. 'O'r gwely 'na'r munud yma. Dos i'r ystafell molchi ac mi fydd dy frecwast yn barod ar y bwrdd.'

Sylweddolodd Aled fod ei fam yn flin. Ymlwybrodd o'r gwely, cawod sydyn a dyna lle roedd o wrth y bwrdd brecwast yn llowcio'r creision ŷd. Mewn dim roedd Aled yn y car a'i fam wrth y llyw. Cyrhaeddodd yr ysgol mewn da bryd. Ond doedd gan Aled fawr o ddiddordeb yn yr ysgol. Prin roedd yn gwrando ar Miss Prydderch. Roedd yn casáu mathemateg a sgwennu. Roedd yn well ganddo chwarae yn y gornel dywod a gwneud lluniau.

Wrth i Aled fynd o ddosbarth i ddosbarth i fyny'r ysgol doedd ganddo fawr o ddiddordeb yn y gwersi. Roedd pob athro yn cwyno amdano.

Ar ôl i Aled dyfu i fyny a gadael yr ysgol roedd o'n methu'n lân â chael gwaith. Roedd ei ffrindiau oedd efo fo yn yr ysgol wedi dechrau gweithio a rhai wedi mynd i'r coleg. Roedd ei ffrind gorau wedi cael swydd yn y garej a ffrind arall yn gweithio yn y banc a'i chwaer, oedd flwyddyn yn hŷn, wedi dechrau nyrsio. Ond Aled druan. Dim swydd, dim gwaith. Dim byd.

Meddai Aled wrtho'i hun, un diwrnod, 'Mae'n biti na fuaswn i wedi gweithio'n galetach yn yr ysgol. Roeddwn i bob amser yn hel esgusodion. Dweud mod i'n sâl ac wedyn pan oeddwn yn yr ysgol roeddwn i'n casáu pob munud yno. Ond arnaf i mae'r bai i gyd.'

Trafodaeth bellach:

- Sut fyddech chi'n disgrifio sut un oedd Aled?

- Oedd ei fam yn iawn yn ei orfodi i fynd i'r ysgol?

- Oedd Aled yn sâl o ddifrif?

Felly, mae'n bwysig ein bod yn defnyddio yr allwedd hon. Gweithio'n galed bob amser. Gwneud ein gorau. Dyma'r ffordd i lwyddo. Prin y byddai Aled wedi cael bathodyn yn dweud, 'wedi gweithio'n dda'.

Gellir trafod gyda'r plant 'allweddau dychmygol' eraill megis derbyn pawb, ymddiried ym mhawb, caru pawb.

Emyn: Down at ein gilydd: Mwy o Glap a Chân 58

Dyfyniad o'r Beibl:
Trystia'r Arglwydd yn llwyr;
paid dibynnu ar dy syniadau dy hun. Diarhebion 3:5 beibl.net

Munud i feddwl:
Dydi hen allwedd byth yn agor drws newydd.

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, helpa ni i gofio mai'r allwedd i fywyd ydi gwaith caled. Helpa ni felly i weithio'n galed bob dydd nid yn unig i wella'n hunain ond i wneud pobl eraill, hefyd, yn well. Diolch. Amen.